# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## Cofnodion EIN(2) 04-07

### Dyddiad y cyfarfod: 21 Mawrth 2007
### Amser y cyfarfod: 9.00 – 11.54
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd, Bae Caerdydd

#### Aelodau’r Cynulliad yn bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Andrew Davies (Gweinidog) | Gorllewin Abertawe |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Alun Ffred Jones | Caernarfon |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

#### Eraill yn bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Rhodri Morgan | Gweinidog dros Wyddoniaeth |

#### Swyddogion yn bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gareth Hall | Cyfarwyddwr yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau |
| James Price | Cyfarwyddwr, Polisi a Strategaeth, DEIN |

| | |
|---|---|
| Richard Rossington | Adran Polisi Busnes, DEIN |
| Robin Shaw | Cyfarwyddwr, Trafnidiaeth Cymru |
| Edward Sherriff | Cynghorydd Economaidd, yr Is adran Cyngor Economaidd |
| Bob Macey | Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |

**Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad**

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Claire Morris | Clerc Pwyllgor |
| Sarah Bartlett | Dirprwy Glerc Pwyllgor |
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol GSC |
| Ben Stokes | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau**

1.1 Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Mae cofnod gair am air o'r cyfarfod ar gael.

1.3 Fe wnaeth Leighton Andrews ddatgan buddiant gan ddweud fod ei wraig yn Gyfarwyddwr BT yng Nghymru.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn deillio**
**Papur: EIN(2) 03 -07 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 8 Mawrth 2007**
**EIN(2) 04-07 – Camau heb eu Cymryd**

2.2 Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 8 Mawrth yn gofnod cywir.

**Eitem 3: Polisi Gwyddoniaeth**
**Papur: EIN(2) 04-07(p.1)**

3.1 Trafododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygiad y Pwyllgor ar Bolisi Gwyddoniaeth.

**Camau Gweithredu:**

- Cytunodd y Gweinidog ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar ariannu Cynllun Addysg Peirianneg

Cymru.

**Eitem 4: Adroddiad y Gweinidog**
**Papur: EIN(2) 04-07(p.2)**
**EIN(2) 04-07(p.2a)**
**EIN(2) 04-07(p2.b)**

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y diweddaraf gan y Gweinidog.

**Camau Gweithredu:**

- Cytunodd y Gweinidog ddarparu papur sefyllfa i'r Pwyllgor ar faint o bobl sy'n defnyddio Band Eang o fewn ardaloedd etholaethol.
- Cytunodd y Gweinidog ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar yr ystod ar gyfer grantiau mewn perthynas â defnyddio technoleg microgynhyrchu, yn dilyn datganiad cyllideb y Canghellor.
- Cytunodd y Gweinidog ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar sut oedd microgynhyrchu'n cael ei gefnogi gan asiantaethau trwy Gymru.
- Cytunodd y Gweinidog ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar unrhyw oblygiadau o ran TAW yn dilyn uno Awdurdod Datblygu Cymru.
- Cytunodd y Gweinidog i ddosbarthu nodyn yn dilyn cynhadledd BioWales 2007.
- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r diweddaraf ar ymestyn y cynllun consesiynau teithio mewn ardaloedd gwledig.
- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar y cynllun rhyddhad ardrethi busnesau bach gyda golwg ar daliadau ôl-weithredol ar gyfer y diwydiant hunanarlwyo.

**Eitem 5: Rhestr Is ddeddfwriaeth**
**Papur: EIN(2) 04-07 (p.3)**

5.1 Nododd y Pwyllgor y rhestr.

**Eitem 6: Adroddiad Chwarterol Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru**
**Papur: EIN(2) 04-07 (p.4)**

6.1 Nodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor.

**Camau Gweithredu:**

- Cytunodd y Gweinidog ddarparu nodyn ar y newidiadau i reolau Cymorth Gwladwriaethol ac amserlen ar gyfer eu cyflwyno.

**Eitem 7: Yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau yn Mynd Ymlaen**
**Papur: EIN(2) 04-07 (p.5)**
**EIN(2) 04-07(p.6)**

7.1 Trafododd y Pwyllgor fodel gweithredu newydd yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau.

**Eitem 8: Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau**
**Papur: EIN(2) 04-07 (p.7)**

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr Adroddiad Blynyddol drafft.

**Eitem 9: Papur Drafft y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau i'w gyflwyno i'r Trydydd Cynulliad**
**Papur: EIN(2) 04-07 (p.8)**

9.1 Cytunodd y Pwyllgor y Papur drafft i'w Gyflwyno i'r Trydydd Cynulliad.

**Y Gwasanaeth Pwyllgorau**